Saesneg isod/ English below

CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL Y PENNANT

**Cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Lun yr 8fed o Fedi 2025 am 7.00yh yn y Ganolfan, Abergynolwyn.**

Presennol; Cyng. Elwyn Evans, Miriam Webb, Steve Lewis, Emrys Thompson, Gwynedd Roberts, Robert D Jones, Dylan Jarman, Eleri Puw, Cyng Beth Lawton (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc).

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Elwyn Evans. Roedd croeso arbennig I'r Cyng Beth Lawton nad oedd wedi bod yn dda yn ddiweddar. O ran datganiadau o ddiddordeb ar faterion ar yr agenda, nododd Cyng Dylan Jarman ei ddiddordeb yn eitem (4e)
2. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 14eg Gorffennaf 2025 a**r gynnig Cyng. Robert Jones a'i eilio gan Cyng Miriam Webb.
3. **Materion yn codi**

a) **Materion Priffyrdd/llwybrau**.

- Nodwyd ymateb i faterion ers y cyfarfod diwethaf, a gwaith sydd ar y gweill ym Medi gan yr Adran Briffyrdd. Nodwyd hefyd yr angen i edrych ar yr erydiad ger Maesywennol (rhwng Penmeini a Bodilanfawr) Hefyd roedd twll yn y ffordd rhwng Pont y Garth a Craig yr Aderyn. Hefyd coed ochr y llyn yn Talyllyn.
- Hefyd, yn dilyn cwyn rai misoedd yn ol, nid oedd dim wedi ei wneud ynglyn â cyflwr ochr ffordd ger ymyl Llyn Talyllyn (rhan ucha)
- Nodwyd e-bost gan Philip Hobson o CADW ynglŷn â cyflwr Pont Tynyfach yn Llanfihangel y Pennant. Y Parc Cenedaethol fyddai yn ymdrin â hyn, ac roeddent eisoes wedi ymweld.

b) **Safle treftadaeth / Celf Cyhoeddus** - nodwyd eto at y siom nad oedd yr un o'r 3 safle a ddewisiwyd ar gyfer y wagen lechi yn addas, a chyfeiriwyd at Astudiaeth yn 2007 ynglyn a un safle gan Emrys, lle roedd cynlluniau am faes parcio wedi bod yno yn y gorffennol. Hefyd dau le arall posib ger y Ganolfan. Roedd angen trefnu cyfarfod gyda cynrychiolydd o YGC.

**c) Ansawdd dwr/ carthffosiaeth - Abergynolwyn** - darllenwyd y sefyllfa ddiweddaraf. Nodwyd eto fod gwelliant gyda blas y dwr.

**d) Arwyddion y cae chwarae –** Addawodd Cyng Elwyn Evans gael arwydd erbyn y tro nesaf.

**e) Cronfa 'Gwynedd Ni' a'r cyfle am grant o fewn ffiniau y Cyngor Cymuned.** – Nodwyd yr holl ohebiaeth ynglyn a hyn ers y cyfarfod diwethaf, a oedd wedi eu gyrru allan i'r Cynghorowyr. Roedd y cyfanswm y cais am grant felly yn £5825.42.

Diolchwyd eto i'r Cyng Eleri Puw am ei gwaith yn cael amcangyfrif cost blodau o £150.42. Addawodd Cyng Beth Lawton archebu y blodau maes o law, a diolchwyd yn fawr iddi hefyd. Byddai yn clerc yn gofyn yn ffurfiol i gwmni Dylan

Jarman i fynd ymlaen gyda'r archeb, a byddai rhaid ystyried y blodau wedyn. (cafwyd datganiad diddordeb gan y Cyng Dylan Jarman, a gadawodd yr ystafell drwy gydol y cyfnod y bu hyn dan drafodaeth.)

4. **Materion Cynllunio**

Roedd un cais wedi ei ddosbarthu ers y cyfarfod diwethaf, sef;

**NP5/67/352 – mynediad cerbydau i briffordd gyhoeddus ac adeiladu trac mynediad at ddibenion coedwigaeth – Coed y Fedw, Abergynolwyn.**

Roedd ymateb eisoes wedi ei ddanfon yn dweud fod Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant yn gefnogol i'r cais yma, gan fod yn bwysig cael mynediad diogel i'r brifordd, a bod yn beth da cael y coed wedi eu clirio.

5. **Materion Cyllid.**

a) **Anfonebau i'w talu**

Ar gynnig Cyng Gwynedd Roberts a'i eilio gan Cyng Emrys Thompson, cytunwyd i dalu y canlynol;

- Archwilio mewnol Cyngor Gwynedd am archwilio cyfrifon 2024-25 - £402.00
- RA Davies – torri a chasglu gwair mynwent Llanfihangel y Pennant a cae chwarae Abergynolwyn, **toriad Gorffennaf** - £680
- RA Davies – torri a chasglu gwair mynwent Llanfihangel y Pennant a cae chwarae Abergynolwyn, **toriad Awst** - £680

(roedd geiriau caredig am y gwaith taclus oedd yn cael ei wneud)

b) **Ceisiadau am arian –** nid oedd unrhyw geisiadau am arian i law.

**6. Adroddiad Cynghorydd Beth Lawton (Cyngor Gwynedd)**

Adroddodd Cyng Beth Lawton am gyfarfod hir gyda'r Bwrdd Iechyd yn Aberdyfi ynglŷn â chadw ward Dyfi yn Ysbyty Tywyn. Roedd nifer o opsiynau gerbron, a chyfeiriwyd at gydweithio mwy efo Dolgellau, a phwysigrwydd cael gwerth am arian.

Hefyd cyfeiriwyd at drip wedi ei drefnu gan y Grwp Llechi i Llandegai.

**7.Adroddiad Cyng. Elwyn Evans , cynrychiolydd Un Llais Cymru.**

Adroddwyd am Bwyllgor Un Llais Cymru Meirionnydd ar Nos Fercher 16/07/25 yn Penrhyndeudraeth, a chael diweddariad o'r gwaith. Hefyd Pwyllgor Polisi ar y 29ain o Awst, a'r gwyn am ddiffyg ymateb, a'r ymbil sydd am fwy o gynrychiolaeth.

Hefyd cyfeiriwyd at y Gynhadledd a'r Cyfafrod Cyffredinol Blynyddol oedd i'w gynnal ar y 1af o Hydref. Cytunwyd ar gynnig Cyng Emrys Thompson a'i eilio gan Cyng Robert Jones i dalu costau y diwrnod, sef £85 ynglyd a chostau teithio.

**8. Gohebiaeth.**

a) **Materion mynwent Llanfihangel y Pennant** - nodwyd claddedigaeth y diweddar Robin Roberts Dysefin, a chyswllt yr ymgymerwyr C T Evans , Aberystwyth. Nodwyd hefyd bryder fod y beddi yn cael eu gosod yn gam, ac y byddai yn fuddiol cael sgwrs am y sefyllfa gyda Rhys Bleddyn. Addawodd y Clerc gysylltu gydag ef,

b) **Nodwyd sesiynau hyfforddiant Un Llais Cymru,** a'r cyrsiau oedd ar y gweill, ac hefyd y cyfle i wneud rhai cyrsiau yn rhad ac am ddim.

*c)* Cyfeiriwyd at e bost gan Cyng Emrys Thompson y**n cyfeirio at y sleid y cae chwarae**, a bod angen gwaith arni. Roedd arwydd wedi ei roi yno dros dro. Cytunodd Cyng Steve Lewis son wrth Tim Parsons a fyddai yn fodlon cael golwg ar y sefyllfa.

*d)* Nodwyd e-bost gan Glerc Cyngor Cymuned Aberdyfi ynglyn a cynllun trafnidiaeth cymunedol posib, ac adroddodd Cyng Elwyn Evans am gyfarfod yr oedd wedi mynychu yn Tywyn y bore hwnnw. Byddai cyfarfod eto ar y 23ain o Hydref,a chyfarfod cyhoeddus ym mis Tachwedd.

*e)* Roedd e-bost gan Deb Critchley yn cyflwyno ei hun fel Swyddog Cymunedol Tenovus.

*f)* Roedd gwybodaeth a phoster am Gwyl Fach Eryri gan y Parc Cenedlaethol, a digwyddiad yn Ty Siams ar y 27ain o Fedi. Nodwyd poster oedd i law.

**9. Unrhyw fater arall**

- Nodwyd fod rhaid ystyried y broblem efo'r goeden yn Heol y Dwr, ac awgrymwyd gofyn i Rhydian Roberts o'r Parc Cenedlaethol a allai helpu efo'r sefyllfa. Byddai'r Clerc yn trefnu.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; Y GANOLFAN, ABERGYNOLWYN NOS FAWRTH 14eg o Hydref 2025 , 7.00y.h.**

**..................................................................................................................................**

Minutes of a Council Meeting held on Monday 8th September 2025 at 7.00pm in the Ganolfan, Abergynolwyn.

Present; Cllr. Elwyn Evans, Miriam Webb, Steve Lewis, Emrys Thompson, Gwynedd Roberts, Robert D Jones, Dylan Jarman, Eleri Puw, Cllr Beth Lawton (Gwynedd Council) and Huw T Jones (Clerk).

1. A warm welcome was extended to everyone by Chairman Elwyn Evans. There was a special welcome to Cllr Beth Lawton who had not enjoyed good health recently.

In terms of declarations of interest on issues on the agenda, Cllr Dylan Jarman indicated his interest in item (4e)

2. The minutes of the meeting held on 14th July 2025 were confirmed on the proposal of Cllr. Robert Jones and seconded by Cllr Miriam Webb.

3. Matters arise

a) Highways/pathways issues.

• Responses to issues since the last meeting, and work that is underway in September by the Highways Department, were noted. They also noted the need to look at the erosion near Maesywennol (between Penmeini and Bodilanfawr) There was also a hole in the road between Pont y Garth and Craig yr Aderyn. Also the trees by the lake in Talyllyn. Also, the condition of the side of the road by the lake at Talyllyn.

• An email from Philip Hobson from CADW was noted regarding the condition of Pont Tynyfach in Llanfihangel y Pennant. The National Park would deal with this, and they had already visited.

b) Heritage site / Public Art - it was noted again to the disappointment that none of the 3 sites chosen for the slate wagon were suitable, and reference was made to a Study in 2007 regarding one site by Emrys, where plans for a car park had been there in the past. Also two other possible places near the Centre. It was necessary to arrange a meeting with a representative of YGC.

c) Quality of water/sewerage - Abergynolwyn - the latest situation was read. It was noted again that there was an improvement with the taste of the water.

d) Playground signs - Cllr Elwyn Evans promised to get a sign by next time.

e) The 'Gwynedd Ni' Fund and the opportunity for a grant within the boundaries of the Community Council. - All the correspondence regarding this since the last meeting, which had been sent out to the Councillors, was noted. The total grant request was therefore £5825.42.

Cllr Eleri Puw was thanked again for her work in obtaining an estimate of the cost of flowers of £150.42. Cllr Beth Lawton promised to order the flowers in due course, and she was also thanked.

A clerk would formally ask Dylan Jarman's company to proceed with the order, and the flowers

would then have to be considered. (a declaration of interest was received from Cllr Dylan Jarman, who left the room throughout the period this was under discussion.)

4. Planning Matters

One application had been distributed since the last meeting, namely;

NP5/67/352 – vehicle access to public highway and construction of access track for forestry purposes – Coed y Fedw, Abergynolwyn.

A response had already been sent saying that the Llanfihangel y Pennant Community Council was supportive of this request, as it was important to have safe access to the highway, and that it was a good thing to have the trees cleared.

5. Finance Matters.

a) Invoices to be paid

On the proposal of Cllr Gwynedd Roberts and seconded by Cllr Emrys Thompson, it was agreed to pay the following;

• Gwynedd Council's internal audit for auditing the 2024-25 accounts - £402.00

• RA Davies - cutting and collecting grass at Llanfihangel y Pennant cemetery and Abergynolwyn playing field, July cutting - £680

• RA Davies - cutting and collecting grass at Llanfihangel y Pennant cemetery and Abergynolwyn playing field, August cut - £680

(there were kind words about the neat work being done)

b) Requests for money - there were no requests for money to hand.

6. Councilor Beth Lawton's report (Gwynedd Council)

Cllr Beth Lawton reported on a long meeting with the Health Board in Aberdyfi regarding keeping the Dyfi ward at Ysbyty Tywyn. There were a number of options before, and reference was made to greater collaboration with Dolgellau, and the importance of getting value for money.

Reference was also made to a trip organized by the Llechi Group to Llandegai.

7. Report of Cllr. Elwyn Evans, representative of One Voice Wales.

Elwyn reported on the Meirionnydd One Voice Cymru Committee on Wednesday 16/07/25 in Penrhyndeudraeth, and got an update on the work. Also the Policy Committee on the 29th of August, and the complaint about lack of response, and the plea for more representation. Reference was also made to the Conference and Annual General Meeting to be held on the 1st of October. Cllr Emrys Thompson's proposal was agreed and seconded by Cllr Robert Jones to cover the day's costs, which were £85 including travel costs.

8. Correspondence.

a) Matters of Llanfihangel y Pennant cemetery - the burial of the late Robin Roberts Dysefin was noted, and the contact of the undertakers C T Evans, Aberystwyth. Concern was also noted that the graves were being placed incorrectly, and that it would be beneficial to have a conversation about the situation with Rhys Bleddyn. The Clerk promised to contact him,

b) Un Llais Cymru training sessions were noted, and the courses that were in progress, and also the opportunity to make some courses free of charge.

c) Reference was made to an email from Cllr Emrys Thompson referring to the playground slide, and that it needed work. A sign had been placed there temporarily. Cllr Steve Lewis agreed to speak to Tim Parsons if he would be willing to have a look at the situation.

d) An email from the Aberdyfi Community Council Clerk was noted regarding a possible community transport plan, and Cllr Elwyn Evans reported on a meeting he had attended in Tywyn that morning. There would be a meeting again on the 23rd of October, and a public meeting in November.

e) An email from Deb Critchley introduced herself as a Tenovus Community Officer.

f) There was information and a poster about the National Park's Little Eryri Festival, and an event at Ty Siamas on the 27th of September. A poster was noted.

9. Any other matter

• It was noted that the problem with the tree in Heol y Dwr must be considered, and it was suggested to ask Rhydian Roberts from the National Park if he could help with the situation. The Clerk would arrange.

DATE OF NEXT MEETING;  Y Ganolfan , ABERGYNOLWYN TUESDAY 14th October 2025, 7.00 p.m.